‘A Yw Prydain yn Decach? ‘ Ffeithiau a chanfyddiadau allweddol am **fenywod a dynion**

‘A yw Prydain yn Decach?’ (2015) yw adolygiad pum-mlynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym Mhrydain. Mae’r daflen ffeithiau hon yn dirnad rhai o’n canfyddiadau allweddol ni ar gyfer dynion a menywod.

Mae rhyw yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae Deddf Cydraddoldeb yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth. Mae’n diogelu unigolion rhag triniaeth annheg; ac yn hyrwyddo cymdeithas decach a mwy cyfartal. Mae’n berthnasol i ddynion a menywod mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys cyflogaeth, addysg, gweithgarwch cyhoeddus a darparu gwasanaethau. Mae ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos fod yna **32.4 miliwn** o fenywod a merched a **31.4 miliwn** o ddynion a bechgyn yn byw ym Mhrydain yn 2013.

Mae merched yn gwneud yn well na bechgyn mewn addysg

Mewn ysgolion ar draws Prydain, mae bwlch rhwng y rhywiau yn parhau, gyda merched yn dal i berfformio’n well na bechgyn yn TGAU, yn cyflawni o leiaf 5 o wobrau yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau’r Alban (SCQF) Lefel 5 neu well.

Ym Mhrydain roedd canran uwch o ddynion **(11%)** na menywod **(9%)** heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant (NEET) yn 2008. Roedd hyn yn gostwng i **8.9%** ar gyfer dynion a **7.5%** ar gyfer menywod yn 2013.

Yn 2008, roedd dynion ym Mhrydain yn fwy tebygol na menywod i gael cymhwyster lefel gradd (**22.3%** o gymharu â **20.5%).** Fodd bynnag, mae’r sefyllfa hon wedi’i gwrthdroi dros amser. Erbyn 2013, roedd **27.7%** o ddynion â chymhwyster lefel gradd, o gymharu â **28.4%** o fenywod.

Fodd bynnag, mae rhagolygon cyflogaeth yn dal i fod yn well i ddynion

Ledled Prydain mae dynion bron ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn rheolwr, cyfarwyddwr neu uwch swyddog na menywod.

Yn 2011, sefydlodd y Llywodraeth darged gwirfoddol ar gyfer cwmnïau cyhoeddus mwyaf y DU (FTSE 100) er mwyn cynyddu canran y swyddi bwrdd a ddelir gan fenywod i 25% erbyn 2015. Ym mis Gorffennaf 2015 cyrhaeddwyd y targed hwn. Fodd bynnag, mae menywod ar fyrddau o hyd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn swyddi cyfarwyddiaeth anweithredol, a swyddi cyfarwyddiaeth gweithredol yn arbennig.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer menywod ym Mhrydain **(69.7%)** yn is nag ar gyfer dynion **(75.9%)**, yn 2013. Gostyngodd y bwlch rhwng 2008 a 2013 gan 1.3 pwynt canran, ond mae hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad sylweddol mewn cyfraddau cyflogaeth ymhlith dynion (lleihad o 1.6 pwynt canran o'r **77.6%** yn 2008).

Ym Mhrydain mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau mewn enillion fesul awr ar gyfer pob gweithiwr yn culhau. Mae wedi gostwng o **22.5%** yn 2008 i **20%** yn 2013, o ganlyniad i gyflog cyfartalog dynion ddirywio fwy na menywod. Mae o hyd fwy o fenywod na dynion mewn gwaith rhan-amser.



Yn glir, mae gwaith ym Mhrydain yn dal yn cael ei nodweddu yn ôl rhywedd. Yn 2013 roedd cyfran lawer uwch o ddynion na menywod yn gweithio mewn crefftau medrus ac yn weithwyr prosesau a pheiriannau, tra bod menywod yn dal yn amlwg mewn rolau gweinyddol, ysgrifenyddol, gofalgar, hamdden a gwasanaethau eraill.

Er hyn, mae cynnydd o ran cynnwys menywod mewn gwleidyddiaeth

Mae **menywod** yn cael eu cynrychioli'n gynyddol yn Senedd y DU ac yn awr yn cynrychioli **29.4%** o'r holl Aelodau Seneddol, o gymharu â **22%** yn 2010.

Nid oedd llawer o newid o ran cynrychiolaeth menywod ar lefel llywodraeth leol yn y blynyddoedd diwethaf. **Roedd tua 32% o gynghorwyr yn Lloegr yn fenywod yn 2013. Yn yr Alban** yn 2007, roedd **21.8%** o gynghorwyr yn fenywod, gan godi ychydig i **24.3%** yn 2012.

Mae menywod yn byw yn hirach na dynion ac yn llai tebygol o fod yn ordew a / neu yfed gormod o alcohol

Ym Mhrydain, roedd disgwyliad einioes ar enedigaeth wedi codi **1.2** flynedd ar gyfer bechgyn, o gymharu â **0.9 o flynyddoedd** ar gyfer merched, i gyrraedd **78.9** a **82.7** oed yn y drefn honno yn 2011/13. Roedd y bwlch rhwng disgwyliad oes merched a bechgyn ar enedigaeth wedi culhau o **0.4 o flynyddoedd** rhwng 2007/09 a 2011/13.



Ar draws Prydain mae cyfrannau is o fenywod yn mynd tu hwnt i'r canllawiau ar gyfer yfed alcohol, o gymharu â dynion.

Ym mhob un o'r tair gwlad, roedd cyfrannau uwch o ddynion 16 oed a throsodd yn rhy drwm neu'n ordew yn 2012, o gymharu â menywod.





Mae dynion a menywod ar draws Prydain mewn perygl cynyddol o iechyd meddwl gwael

Rhwng 2008 a 2013 (2009 a 2012 yng Nghymru), roedd dynion a menywod yn wynebu perygl cynyddol o iechyd meddwl gwael.

Yng Nghymru, roedd y risg yn amlwg o uwch i ddynion a menywod fel ei gilydd o gymharu â gweddill Prydain:

- ♀ **35.8%** (cynnydd o **34.1%** yn 2009)
- ♂ **26.8%** (cynnydd o **26.7%** yn 2009)

Mae hyn yn wahanol iawn i Loegr yn 2013, lle mae canran y bobl sydd mewn perygl yn llawer is:

- ♀ **18%** (cynnydd o **15.5%** yn 2008)
- ♂ **11.9%** (cynnydd o **11.2%** yn 2009)

Ac i'r Alban yn 2012, y canrannau i ddynion a menywod oedd:

- ♀ **17.5%** (**17.1%** yn 2008)
- ♂ **12.7%** (cynnydd o **12.4%** yn 2009)

Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr trais rhywiol neu drais yn y cartref, tra bod dynion yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr trosedd dreisgar a dynladdiad

Ledled y DU, bu cyfran uwch o ddynion yn ddioddefwyr dynladdiad na menywod. Yng Nghymru a Lloegr, er bod nifer uwch o ddynion yn cael eu lladd gan ffrindiau / cydnabod neu ddieithryn, roedd niferoedd uwch o fenywod yn cael eu lladd gan bartner presennol neu gynbartner.

LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU

Roedd menywod yn llawer mwy tebygol o fod yn ddioddefwyr trais rhywiol na dynion, ac yn fwy tebygol o brofi trais domestig neu gamdriniaeth gan bartner. Yn 2012/13, yng Nghymru a Lloegr, roedd canran uwch o ymatebwyr benywaidd i Arolwg Troseddu yng Nghymru a Lloegr wedi adrodd iddynt ddioddef trais yn y cartref **(3.7%)** o gymharu â dynion **(2.0%)**. Mae'r darlun yn yr Alban yn wahanol: adroddodd **2.1%** o ddynion a menywod iddynt ddioddef trais yn y cartref.

Ar draws Prydain amcangyfrifir fod 330,000 o fenywod wedi dioddef ymosodiad rhywiol rhwng 2012 a 2013. Mae materion yn ymwneud â diffyg adrodd am drais rhywiol, yn ogystal â chofnodi adroddiadau swyddogol anfoddhaol gan yr heddlu, yn parhau yn berthnasol yn ôl Awdurdod Ystadegau'r DU.

Yn Lloegr adroddodd mwy o ddynion eu bod wedi dioddef troseddau treisgar **(3.2%)** na menywod **(2.1%)** yn 2012/13. Roedd hyn hefyd yn wir yng Nghymru lle adroddodd mwy o ddynion **(3.8%)** eu bod wedi dioddef troseddau treisgar, o gymharu â menywod **(1.5%)** yn 2012/13. Yn yr Alban, adroddodd **4.2%** o ddynion eu bod wedi dioddef troseddau treisgar, o gymharu â **2.2%** o fenywod.